OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 2274 (Cy. 220)

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *5 Medi 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *10 Medi 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Hydref 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 26(1)(a) a (2) o Ddeddf Gofal Plant 2006(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2013.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Hydref 2013.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "asesiad" ("*assessment*") yw'r asesiad a gynhelir gan awdurdod lleol yn unol â'r Rheoliadau hyn;

ystyr "darparydd gofal plant" ("*childcare provider*") yw unrhyw berson sy'n darparu gofal plant;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Gofal Plant 2006;

ystyr "hyd sesiwn" ("*session length*") yw'r cyfnod hiraf o amser y bydd darparydd gofal plant yn gofalu am blentyn mewn diwrnod.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, y mathau o ofal plant yw—

(a) gwarchod plant;

(**1**) 2006 p.21.
(**2**) Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru ac maent wedi eu breinio bellach ynddynt.

(b) gofal dydd llawn;

(c) gofal sesiynol;

(d) gofal y tu allan i oriau ysgol; ac

(e) crèches.

**Dyletswydd i lunio asesiadau**

**3.**—(1) Rhaid i bob awdurdod lleol lunio asesiadau o ddigonolrwydd y gofal plant a ddarperir yn ei ardal.

(2) Rhaid cyhoeddi'r asesiad cyntaf a lunnir gan bob awdurdod lleol, yn unol â'r Rheoliadau hyn, erbyn 30 Ebrill 2014 a phob 3 blynedd wedi hynny.

(3) Wrth lunio asesiadau rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.

**Materion i'w cynnwys yn yr asesiad**

**4.**—(1) Rhaid i asesiad yr awdurdod lleol gynnwys, ar gyfer ei ardal awdurdod lleol, mewn cysylltiad â phob math o ofal plant ac o ystyried gwahanol oedrannau'r plant, fanylion am—

(a) nifer y lleoedd sy'n ofynnol;

(b) nifer y lleoedd sydd ar gael;

(c) nifer y lleoedd sy'n ofynnol y caniateir i'r elfen gofal plant o gredyd treth gwaith neu'r elfen costau gofal plant o gredyd cynhwysol gael ei defnyddio ar eu cyfer;

(d) nifer y lleoedd sydd ar gael y gallai rhieni ddefnyddio'r elfen gofal plant o gredyd treth gwaith neu'r elfen costau gofal plant o gredyd cynhwysol ar eu cyfer;

(e) yr adegau pan fo'r gofal plant yn ofynnol;

(f) yr adegau pan fo'r gofal plant ar gael;

(g) ystod yr hydoedd sesiwn a gynigir gan ddarparwyr gofal plant;

(h) nifer y lleoedd sy'n ofynnol sy'n addas i blant ag anghenion addysgol arbennig neu y mae angen gofal arbenigol arnynt oherwydd anabledd;

(i) nifer y lleoedd sydd ar gael sy'n addas i blant ag anghenion addysgol arbennig neu y mae angen gofal arbenigol arnynt oherwydd anabledd;

(j) nifer y lleoedd sy'n ofynnol ar gyfer gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog;

(k) nifer y lleoedd sydd ar gael ar gyfer gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog;

(l) nifer y lleoedd gwag a'r lleoedd sydd heb eu defnyddio; ac

(m) ystod y taliadau ar gyfer y gofal plant.

(2) Rhaid i'r asesiad gynnwys crynodeb o anghenion gofal plant nad ydynt yn cael eu diwallu yn ardal yr awdurdod lleol gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r canlynol—

(a) y mathau o ofal plant sydd ar gael;

(b) oedran y plant y mae gofal plant ar gael iddynt;

(c) fforddiadwyedd gofal plant;

(d) adegau pan fo gofal plant ar gael;

(e) anghenion penodol plant anabl;

(f) argaeledd gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog; ac

(g) lleoliad y gofal plant.

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr "elfen costau gofal plant o gredyd cynhwysol" ("*child care costs element of universal credit*") yw swm a gynhwysir mewn dyfarniad o gredyd cynhwysol o dan adran 12 o Ddeddf Diwygio Lles 2012(**3**) ac a ragnodir yn Rheoliadau Credyd Cynhwysol 2013(**4**).

### Ymgynghori

**5.** Wrth lunio'r asesiad, rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r canlynol—

(a) plant;

(b) rhieni neu ofalwyr;

(c) darparwyr gofal plant;

(d) personau sy'n cynrychioli plant, rhieni neu ofalwyr a darparwyr gofal plant;

(e) personau a chanddynt fuddiant mewn gofal plant a phersonau sy'n cynrychioli'r rheini a chanddynt fuddiant mewn gofal plant;

(f) personau sy'n cynrychioli cyflogwyr a chyrff cyflogwyr lleol;

(g) cyflogwyr lleol;

(h) awdurdodau lleol cyfagos;

(i) ysgolion; a

(j) colegau addysg bellach

sydd yn ardal yr awdurdod lleol sy'n briodol yn ei farn ef.

**6.**—(1) Wrth lunio'r asesiad, rhaid i'r awdurdod lleol—

(a) ymgynghori â'r Bwrdd Lleol ar gyfer Diogelu Plant; a

(b) hysbysu unrhyw swyddfeydd Canolfan Byd Gwaith yn ardal yr awdurdod lleol a'u gwahodd i gyflwyno unrhyw sylwadau.

### Crynodeb Drafft

**7.** Cyn cyhoeddi crynodeb o'r asesiad a gynhelir o dan y Rheoliadau hyn, rhaid i'r awdurdod lleol anfon drafft o'r crynodeb o'r asesiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi at y personau a restrir yn rheoliadau 5 a 6 er mwyn rhoi cyfle iddynt gyflwyno sylwadau ar y drafft.

**8.** Rhaid i'r awdurdod lleol ddiwygio'r crynodeb drafft o'r asesiad yn y dull sy'n briodol yn ei farn ef wrth ymateb i unrhyw sylwadau a geir gan bersonau a restrir yn rheoliadau 5 a 6.

### Cyhoeddi'r Asesiad

**9.** Rhaid i'r awdurdod lleol gyhoeddi crynodeb o'r asesiad ar wefan yr awdurdod lleol.

**10.** Rhaid i'r awdurdod lleol adneuo copïau o'r crynodeb o'r asesiad mewn llyfrgelloedd cyhoeddus, lleoliadau gofal plant, ysgolion a mannau cyhoeddus eraill sy'n briodol yn ei farn ef.

**11.** Rhaid i'r crynodeb o'r asesiad gynnwys—

(a) yr wybodaeth a bennir yn rheoliad 4(1) mewn cysylltiad ag ardal yr awdurdod lleol; a

(b) yr wybodaeth a bennir yn rheoliad 4(2).

(**3**) 2012 p.5.
(**4**) O.S. 2013/376.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

**Dirymu**

**12.** Mae Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2008(**5**) wedi eu dirymu.

*Jeff Cuthbert*
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi un o Weinidogion Cymru

5 Medi 2013

(**5**) O.S. 2008/169 (Cy.22).

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2008 ("Rheoliadau 2008") ac yn eu hail-wneud er mwyn cywiro gwallau technegol yn Rheoliadau 2008 a chynnwys cyfeiriadau at gredyd cynhwysol yn ogystal â chredyd treth gwaith a gaiff, yn rhinwedd Deddf Diwygio Lles 2012, ei ddisodli gan gredyd cynhwysol.

Mae rheoliad 3 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal asesiadau o ddigonolrwydd gofal plant yn ardal yr awdurdod lleol.

Mae rheoliad 4 yn nodi'r materion i'w cynnwys yn yr asesiad.

Mae rheoliadau 5 a 6 yn rhagnodi'r personau i ymgynghori â hwy wrth lunio'r asesiadau ac mae rheoliad 7 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi cyfle i'r personau y cyfeirir atynt yn rheoliadau 5 a 6 gyflwyno sylwadau ar grynodeb drafft o'r asesiad cyn iddo gael ei gyhoeddi.

Mae rheoliadau 9 i 11 yn ymdrin â'r gofynion o ran cyhoeddi'r crynodeb o'r asesiad.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.